# anthem.

## Adroddiad Effaith Anthem 2021-2024



# **Croeso** i Adroddiad Effaith Anthem 2024



Mae ein pobl ifanc wedi cael amser arbennig o anodd yn ystod y cyfnod diweddar. Mae tlodi plant yng Nghymru wedi bod yn broblem barhaus ers blynyddoedd lawer. Yna daeth y pandemig a'i ganlyniadau, gan darfu ar brofiadau addysgol a'i gwneud hi'n amhosib dod at ein gilydd a chreu. A thrwy hyn i gyd, yr argyfwng costau byw, neu'r argyfwng crafu byw.

Yn erbyn yr heriau hyn, mae Anthem wedi ceisio newid y naratif ar gyfer pobl ifanc a'u cerddoriaeth, hybu gwytnwch y genhedlaeth bresennol, a chefnogi'r hyrwyddwyr cymunedol hynny sydd, fel ninnau, am wneud gwahaniaeth. Gweithgarwch rhyng-gysylltiedig Anthem ar draws grantiau, rhwydweithiau, hwyluso, a dadansoddi ac sy'n rhoi llwyfan i lais ieuenctid bob amser, fu ein hymateb ni i lefel yr uchelgais a'r gwerth mae pobl ifanc yn ei roi ar ddatblygu eu cerddoriaeth.

Mae wedi bod yn galonogol gweld sefydlu'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, er bod Anthem yn annog Llywodraeth Cymru i ymrwymo i gyllid hirdymor ar gyfer y strategaeth hon er mwyn galluogi dyfodol cerddorol i holl bobl ifanc Cymru. Mae pwyslais Anthem ar lwybrau, mynediad a chyfleoedd i bobl ifanc yn ategu ac yn adeiladu ar y Cynllun Cenedlaethol, ond mae angen i Anthem hefyd sicrhau ei dyfodol cynaliadwy ei hun. Mantra'r Bwrdd fu: datblygu'r stori, dangos yr angen, a datblygu adnoddau, ac mae tîm Anthem, o dan arweiniad anhygoel y Prif Weithredwr Rhian Hutchings, yn sicr wedi camu i'r adwy. Mae'r cymorth cychwynnol a gawsom gan Lywodraeth Cymru a Youth Music wedi ein galluogi i ymsefydlu'n gadarn, ac rydym bellach yn elwa ar berthnasoedd cyfoethog gyda llu o sefydliadau, cefnogwyr a chyllidwyr.

Bwriad yr adroddiad hwn yw ceisio casglu ffeithiau a ffigurau ynghyd, yn ogystal â rhai o'r manteision sefydliadol a phersonol llai diriaethol sy'n gysylltiedig ag Anthem. Mae'n gofnod o gerrig milltir y gobeithiwn y fydd yn ysgogi rhagor o bobl nid yn unig i gymryd sylw ond hefyd i chwarae eu rhan yn llwyddiant ysgubol Anthem.

**David Alston MBE**
**Cadeirydd Anthem 2018-24**

# Prif Brosiectau 2021 - 2024

**Cronfa Atsain** sef ein prif gronfa ar gyfer sefydliadau cerdd ieuenctid. Wedi'i ariannu gan Youth Music a gyda diolch am gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl.

**Anthem FFWD>>** sy'n dod â phobl greadigol ifanc 17-24 oed o gymysgedd o genres a chefndiroedd cerddoriaeth at ei gilydd i weithio gyda ni dros gyfnod o flwyddyn.

**Porth Anthem** sy'n creu ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy i bobl ifanc sydd â diddordeb yn y diwydiant cerdd.

**Arddangos** digwyddiadau perfformio i gynulleidfaoedd o dan 18 oed

Cyfeiriad cofrestredig: 202 Tŷ Trafalgar,
5 Plas Fitzalan, Caerdydd, CF24 0ED
Rhif elusen: 1182024 | Rhif cwmni: 11240995



# Ein Gweledigaeth: Cymru lle y gall cerddoriaeth rymuso pob bywyd ifanc.

Mae cerddoriaeth yn rym creadigol pwerus i bobl ifanc sy'n bwydo hunanfynegiant, datblygiad personol a llesiant.

# Ein Nodau Strategol

**Galluogi Mynediad:** Cyrraedd pobl ifanc sy'n wynebu anghyfartaledd o ran mynediad oherwydd amddifadedd cymdeithasol, arwahanrwydd gwledig neu amgylchiadau heriol eraill, cryfhau'r seilwaith ar gyfer darpariaeth cerddoriaeth a llenwi bylchau amlwg.

**Canlyniad: Llwybrau cynaliadwy cryfach at gerddoriaeth yn eu lle ar gyfer pobl ifanc Cymru.**


**Creu Cyfleoedd:** Ehangu'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc, drwy'r ysgol a'r gymuned.

**Canlyniad: Rhagor o bartneriaethau rhwng ysgolion, y diwydiant cerdd a cherddoriaeth ieuenctid.**

**Meithrin Doniau:** Darparu grantiau a bwrsariaethau i ddatgloi doniau a sicrhau dilyniant i bobl ifanc sydd â doniau cerddorol neu ddoniau sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth, yn uniongyrchol i unigolion a thrwy sefydliadau.

**Canlyniad: Pobl ifanc sy'n gyrru Anthem yng Nghymru.**





www.anthem.cymru
gateway.anthem.wales/cy

# Deall y rhwystrau i gerddoriaeth i bobl ifanc Cymru

Mae ariannu 45 o brosiectau cerddoriaeth ieuenctid ledled Cymru wedi rhoi cipolwg anhygoel i Anthem ar yr heriau i bobl ifanc a sut mae cerddoriaeth ieuenctid wir yn newid bywydau yng Nghymru.

### Prif ganfyddiadau 2023

- Mae ystod eang o sefydliadau yn cynnal prosiectau cerddoriaeth ieuenctid gan gynnwys sefydliadau cymunedol, awdurdodau lleol, canolfannau ieuenctid, canolfan chwarae i blant ifanc, lleoliadau, a sefydliadau celfyddydol.
- Maent yn cysylltu â llawer o wahanol sefydliadau partner i wneud eu gwaith, gan gynnwys elusen iechyd meddwl, gwasanaethau tai a digartrefedd, elusennau anabledd, bwrdd arholi, grwpiau gofalwyr ifanc, a thimau cyfiawnder ieuenctid a throseddwyr ifanc.
- Cynyddodd Atsain gapasiti a gweithgarwch ar gyfer y sefydliadau a ariannwyd.

### Beth wnaeth i brosiectau weithio

Mae adroddiadau gwerthuso yn cynnwys strategaethau a chamau gweithredu a ddarparodd atebion i rwystrau sy'n cael eu profi gan bobl ifanc, gan gynnwys:

- Darparu cefnogaeth drwy brosiectau i bobl ifanc eirioli dros fodloni eu hanghenion a'u cefnogi i gael mynediad at wasanaethau eraill
- Ymagwedd bersonol gan artistiaid a adeiladodd berthnasoedd gyda chyfranogwyr a oedd yn eu galluogi i gymryd rhan
- Creu lle diogel i bobl ifanc weithio ynddo
- Gweithio gyda gwasanaethau cynghorau i ddarparu cludiant i bobl ifanc fynychu sesiynau
- Defnyddio cyfansoddi geiriau a chaneuon i gefnogi llesiant a mynegiant emosiynol
- Meithrin doniau mewn amgylchedd nad yw'n gysylltiedig ag addysg

## Canlyniadau i bobl ifanc
## Personol a Chymdeithasol

**Mwy o hunan-werth**

Ymdeimlad o gymuned a pherthyn (llai o arwahanrwydd/unigedd)

Teimlad o falchder

**Mwy o hyder**

**Hunanfynegiant**

Cysylltiad ag eraill sy'n rhannu diddordebau

Goresgyn gorbryder cymdeithasol

**Hunan-gred**

**Cyfeillgarwch**

Cysylltiadau cymdeithasol newydd rhwng teuluoedd

Gwytnwch

Sgiliau cyfathrebu



*Ers cymryd rhan yn [enw'r prosiect], mae S wedi dod o hyd i'r hyder i ddechrau'n ôl yn yr ysgol unwaith eto. Mae'n edrych ymlaen at fynychu ei sesiynau bob wythnos ac mae bob amser yn dod adre'n awyddus iawn i ddangos yr hyn mae wedi'i ddysgu i'w dad. -* ***Rhiant Cyfranogwr***

*Mae'r plant wedi datblygu'n gymdeithasol o ran meithrin cyfeillgarwch ac edrych ymlaen at weld ei gilydd. Mae'r plant yn fwy ymwybodol o'i gilydd ac, er enghraifft, wedi dechrau chwarae gemau cwrso gyda'i gilydd. Fel gofalwr, mae wedi bod yn hyfryd cael ymuno yn y sesiynau. Mae'n helpu i ddatblygu persbectif arall ar y plentyn ac yn fy ngalluogi i ddefnyddio'r sgiliau gyda'r plentyn y tu allan i'r sesiynau. Mae'n wych ar gyfer ein plant ni. Mae'r plant wedi ffurfio'r math o gyfeillgarwch nad ydych chi'n ei weld yn aml mewn plant sydd ag anableddau. Maen nhw hefyd yn dod at ei gilydd ar ôl y sesiynau i wneud eu brechdanau eu hunain ac i eistedd o gwmpas y bwrdd gyda'i gilydd, rhywbeth na fydden nhw byth yn ei wneud o'r blaen. -* ***Gofalwr cefnogi prosiect***

## Canlyniadau i bobl ifanc
## Creu

Cynhyrchu a recordio cerddoriaeth

**Ysgrifennu geiriau**

**Ailgymysgu**

Crefft llwyfan a sgiliau perfformio

**Cyfansoddi**

**Rapio**

Techneg leisiol



Chwarae offerynnau (drymiau/ offerynnau taro, gitâr, gitâr fas, allweddellau, piano)

DJio

**Jamio**



## Arddangos

**BETH:** Diff Ambition 2023 - digwyddiad arddangos ar gyfer artistiaid ifanc a grëwyd ar gyfer cynulleidfaoedd 14 oed a hŷn.

**Ein Partneriaid:** Actifyddion Artistig, Canolfan Gymunedol Cathays, Clwb Ifor Bach, Jukebox, Lab 7, New Era Talent, The Hold Up, Sound Progression

**Gweithgaredd** - pum digwyddiad arddangos yng Nghaerdydd a roddodd lwyfan i 30 o artistiaid ifanc

***Mynychodd 252 o bobl ifanc***





# Cronfa Atsain

Lansiodd Anthem Gronfa Atsain yn 2022 gyda chefnogaeth Youth Music a Llywodraeth Cymru. Atsain yw ein prif gronfa strategol a grëwyd i ganolbwyntio ar chwalu rhwystrau i gerddoriaeth i bobl ifanc Cymru ac i agor sgwrs yn y sector cerddoriaeth ieuenctid am arfer da mewn gwahanol gyd-destunau.

**Cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd hyd yn hyn ers y lansiad yw**

**£379,933,**

**gyda'r rhan fwyaf o ddyfarniadau rhwng £7000 a £9000.**

**45 ALLAN O 113 WEDI'U HARIANNU**

**Ar draws pedair rownd cawsom 113 o geisiadau ac roeddem yn gallu ariannu 45 ohonynt.**

**Bydd y prosiectau'n cyrraedd cyfanswm o**

**3973**

**o fuddiolwyr ledled Cymru.**

**182 O SEFYDLIADAU PARTNER**

**Bydd y prosiectau'n gweithio gyda 182 o sefydliadau partner wrth gyflwyno'r prosiect.**

**6 & 12 MIS**

**Mae'r prosiectau'n para rhwng 6 a 12 mis**



# Rhwydwaith Atsain

Ochr yn ochr â'r gronfa, rydym yn rhedeg rhwydwaith Atsain, sy'n cyfarfod bob deufis. Bellach mae gan y rhwydwaith **79 o aelodau**, gyda thua'u hanner yn cael eu hariannu gan Atsain a hanner o'r sector celfyddydau ac ieuenctid ehangach. Mae'r aelodau'n croesawu'r cyfle i rannu'r hyn a ddysgwyd am brosiectau ac i gael mynediad at gyngor a chymorth gan gyfoedion.

**Mynychodd 75 o gynadleddwyr ddigwyddiad Atseinio yng Nghaerdydd ym mis Chwefror 2024**

Cynhaliwyd Atseinio yn Arena Utilita yng Nghaerdydd fel rhan o gynhadledd y diwydiant cerdd, Summit, mewn partneriaeth â Beacons Cymru. Daeth â sefydliadau cerddoriaeth ieuenctid, sefydliadau'r diwydiant cerdd, cyllidwyr, a cherddorion ifanc ynghyd i drafod llwybrau datblygu cerddoriaeth yng Nghymru.




**Roedd y diwrnod yn cynnwys:**


- Prif anerchiad gan Matt Griffiths o Youth Music
- Trafodaeth banel
- Gweithdai rhannu gwybodaeth am lais ieuenctid
- Gweithio mewn partneriaeth a chydraddoldeb a chynhwysiant
- Trafodaeth bord gron yn y prynhawn yn archwilio teithiau ym maes datblygu cerddoriaeth yng Nghymru.

*Roedd hwn yn gyfle i glywed ac i gwrdd â phobl a chael y sgyrsiau sydd angen eu cael. Mynd i'r afael â'r rhwystrau ond hefyd dod â gwedd gadarnhaol i'r peth drwy feddwl am atebion. - Cyfranogwr yn Atseinio*

*Mynychodd detholiad da iawn o sefydliadau ac o ranbarthau daearyddol amrywiol. Digwyddiad rhwydweithio gwych, gyda digon o le i symud o gwmpas a chwrdd â phobl newydd mewn awyrgylch cyfeillgar iawn. - Cyfranogwr yn Atseinio*



# Golwg ar Brosiectau Atsain



## THEATR BRYCHEINIOG: CLWB HYRWYDDWYR IFANC

**Beth:** Clwb hyrwyddwyr ifanc i bobl ifanc 12-18 oed

**Ble:** Aberhonddu

**Nifer y Cyfranogwyr:** 100

**Prif Ganlyniad:** cynyddu ymgysylltiad â phobl ifanc 14-25 oed a chreu rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau wedi'u dylunio, eu curadu a'u harwain gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc.

Roedd y prosiect hwn yn cynnwys chwech o bobl ifanc 12-18 oed yn cydweithio fel grŵp o hyrwyddwyr ifanc i guradu cyfres o gyngherddau cerdd. Rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2023 fe drefnon nhw un gig y mis, gan oruchwylio'r gwaith cyfryngau cymdeithasol, gwiriadau sain a hyrwyddo. Trefnwyd ystod eang o artistiaid, gan gynnwys **Sage Todz, The Family Battenberg, Mari Mathias, Dactyl Terra, Sorry Stacey, a band y tŷ, Northern Ruins.**

*"Mae gigs mewn trefi llai yn dod â phobl ifanc, cymunedau a phobl at ei gilydd, yn enwedig mewn trefi sydd heb ddigwyddiadau enfawr i bobl ifanc dros oedran ysgol gynradd, ond sydd o dan 18 oed."*
**Teagan, Hyrwyddwr Cerddoriaeth Ifanc**

*"Allwch chi ddim cwrdd â grŵp o bobl ifanc a dechrau'r sgwrs gyda "pa gerddoriaeth ydych chi'n hoffi?". Mae'n cymryd amser i ddod i nabod unigolion a dysgu pa gerddoriaeth maen nhw'n ei hoffi. Mae pobl yn gallu bod yn sensitif am hynny gan ei fod yn rhan o'u hunaniaeth."*
**Anna Wormleighton, Theatr B**

## CÔR UN BYD OASIS: CLYWCH EIN LLAIS / CURIADAU UN BYD

**Beth:** gweithdai cerddoriaeth wythnosol ar ôl ysgol i bobl ifanc sy'n chwilio am noddfa mewn canu/ysgrifennu caneuon a pherfformio.

**Ble:** Caerdydd

**Nifer y Cyfranogwyr:** 80


**Prif Ganlyniad:** Creu gofod diogel a hwyliog lle bydd pobl ifanc, drwy greu cerddoriaeth a mynegiant creadigol, yn cael eu cefnogi i wneud ffrindiau, magu hyder a phrosesu eu realiti newydd.


Mae Oasis wedi gosod pobl ifanc wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau yn ystod y prosiect. Feiolinydd 12 oed yw Cyfranogwr A, a ddechreuodd weithio gydag Oasis ar ôl i'w fam awgrymu y byddai'n ffordd dda o gwrdd â rhagor o bobl a datblygu ei brofiad cerddorol.


Yn ystod ei amser ar y prosiect, mae wedi cael cyfle i gyfansoddi a recordio caneuon, yn ogystal â theithio ledled Cymru i berfformio o flaen cynulleidfaoedd mawr. Dywed A ei fod yn gallu ymgolli mewn cerddoriaeth yn wythnosol, boed hynny drwy ganu, dawnsio, neu recordio, a'i fod yn cael ei annog yn aml i gamu allan o'i fan cysurus ac i fyfyfyrio wrth chwarae ei ffidil.


*"Mae gan bawb lais. Mae pawb yn chwarae rhan fawr wrth ei greu... os nad oes neb yn cynnig eu syniadau, fyddai hi ddim yn dda oherwydd mae angen barn pawb arnoch".*
**Cyfranogwr A**

## Prif Ystadegau Ariannu



# Anthem FFWD>>




Mae Anthem FFWD>> yn rhoi cyfle i bobl greadigol ifanc 17-24 oed gyflymu eu datblygiad personol mewn cerddoriaeth yng Nghymru. Dros y flwyddyn, maent yn cael cefnogaeth gan Anthem, ond hefyd yn cael bwydo i mewn i ddatblygiad Anthem, a helpu i gyflymu newid yn y diwydiant cerdd ar gyfer yr holl bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae Fforwm FFWD>> yn rhan annatod o'n cenhadaeth, gan alluogi mynediad at gerddoriaeth a meithrin doniau amrywiol i gymryd y camau nesaf i ddilyn gyrfaoedd ym maes cerddoriaeth. Mae aelodau FFWD>> yn dod o bob rhan o'r diwydiant. Mae'r sesiynau'n archwilio'r hyn sydd ei angen ar bobl ifanc i symud ymlaen yn y diwydiant cerdd yng Nghymru, yn nodi ac yn trafod syniadau i ddatrys problemau, yn trafod strwythur cerddoriaeth yng Nghymru, ac yn archwilio'r hyn y gall Anthem ei wneud i gefnogi cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru.

*"Roedd y Fforwm Ieuenctid yn ofod diogel ar gyfer gwreiddioldeb ac amrywiaeth. Dim beirniadaeth na bwlio."*

**Gallwch ddysgu rhagor am aelodau presennol a chyn-aelodau'r Fforwm Ieuenctid yma: www.anthem.cymru/cy/ffwd/**

*"Mae Anthem wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyl ar bob cyfle. Rwy wir yn credu eu bod yn un o'r ychydig sefydliadau sy'n rhoi lles pennaf ei haelodau yn ganolog i'w gwaith."*

*"Mae'r prosiect cydweithio wyneb yn wyneb wedi gwella fy arfer creadigol gan fy mod wedi gallu dysgu am sut mae llawer o wahanol bobl yn defnyddio eu harferion creadigol eu hunain, sydd wedi fy ngalluogi i ddatblygu fy rhai fy hunan."*






anthem GATEWAY
GATEWAY.ANTHEM.WALES

Porth ar-lein yw Porth Anthem ar gyfer pobl ifanc Cymru sy'n caru cerddoriaeth ac sydd eisiau darganfod sut y gallant gymryd rhan. Mae'n cynnwys adnoddau ar ffurf fideos, podlediadau a blogiau er mwyn meithrin dealltwriaeth o sut mae'r diwydiant cerdd yn gweithio a chreu llwybrau at yrfaoedd yn y dyfodol, boed hynny ar lwyfan, gefn llwyfan, mewn swyddfa gefn neu yn y gynulleidfa.

**Dewch o hyd i'r hyn sydd ei angen arnoch CHI i wella'ch gyrfa ym maes cerddoriaeth**

## Y Gofod Gwybodaeth

**Llu o adnoddau a grëwyd yn arbennig, gan gynnwys:**

- **Sut i greu Linktree**
- **Dechrau arni fel DJ**
- **Ymuno â'r Gymdeithas Hawliau Perfformio**
- **Sut i greu Pecyn Wasg Electronig perffaith**

## Podlediad Amplify




**Straeon am gerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru. Podlediad gan gerddorion a gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant cerdd yng Nghymru gan gynnwys Aleighcia Scott, Rightkeysonly, Ify Iwobi a Connor Morgans.**

## Cyfleoedd



**Dewch o hyd i'r diweddaraf o ran gweithdai, rhaglenni, galwadau ariannu, digwyddiadau a swyddi o bob rhan o'r sector cerddoriaeth yng Nghymru ar ein tudalen cyfleoedd.**

## Gyrfaoedd yn y Diwydiant Cerdd




**Dysgwch am swyddi yn y diwydiant cerdd, gan gynnwys dadansoddiad o sgiliau a dolenni at adnoddau defnyddiol eraill.**

## Rhwydwaith

**Ochr yn ochr â'r Porth, mae Anthem wedi lansio cymuned ar Discord. Gall unrhyw un 14 oed a hŷn ymuno a chysylltu â phobl greadigol ifanc eraill yng Nghymru, cael mynediad at sesiynau Open Notes unigryw, a rhannu cerddoriaeth.**

# Ein 2021 – 2024
# Cyllidwyr a Phartneriaid

Anne Duchess of Westminster's Fund
Biz Space
Arts & Business Cymru
BNI
Postcode Community Trust
For Cardiff
Garrick Charitable Trust
Gwendoline and Margaret Davies Charity
Oakdale Trust
Sound Connections
Tŷ Cerdd – hyrwyddo a dathlu cerddoriaeth Cymru – promoting and celebrating the music of Wales
Youth Music
utilita arena Cardiff
Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Y Tîm

**Prif Weithredwr:** Rhian Hutchings

**Rheolwr Cyfathrebu:** Tori Sillman

**Rheolwyr Rhaglenni:** Rebecca Rickard & Kofi Acheampong

**Rheolwr Codi Arian:** Rebecca Hobbs

**Rheolwyr Prosiect FFWD:** Åsa Malmsten & Sarah Sweeney

**Rheolwr Prosiect Porth 2022:** Aisha Kigwalilo

**Ymgynghorydd Porth 2022:** Josh Whyte

**Rheolwr Lleoliadau a Phrosiect Kickstart 2022:** Violet Hunt-Humphries

**Prentis Creadigol 2023:** Idris Jones

# Ymddiriedolwyr


Catrin Roberts
David Alston
Deborah Keyser
Gareth Williams
Gwenda Carnie
Hayley Smith
Ify Iwobi
Laurence Collier
Pea Pearson
James Radcliffe
Ryan Singh
Tayla-Leigh Payne


# Llysgenhadon


Catrin Finch


Huw Stephens


Kizzy Crawford

**Cefnogaeth Arbennig:**
Geraint Davies CBE
Cyfranwyr Arwerthiant Anthem
Rhoddwyr rheolaidd Corws Anthem

**Ffotograffau drwy garedigrwydd Billy Stillman, Jordan Sheehy, Mitchell Williams a Tori Sillman**

**www.anthem.cymru**
**www.gateway.anthem.wales/cy**